# Gwybodaeth i Staff - Argyfwng Iechyd Meddwl Myfyrwyr

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

## Oes angen delio â'r broblem ar frys?

- Ydych chi'n credu bod y myfyriwr:
- Wedi rhoi'r gorau i ofalu am ei hun?
- Yn ddifrifol wael yn gorfforol?
- O bosib yn risg difrifol iddo ef/iddi hi ei hun neu i eraill
- Mewn perygl o ladd ei hun

**OES**

## A yw'r myfyriwr yn fodlon derbyn

**YDY**

1. **Ydy'r myfyriwr wedi gweld Ymarferydd Iechyd Meddwl o'r blaen?** A ellir cysylltu â'r person hwn?
2. **Cysylltwch â meddyg teulu** - meddyg teulu'r myfyriwr ei hun neu Feddygfa Bodnant (01248 364492 ) i drefnu apwyntiad brys. Gellwch chi neu'r myfyriwr drefnu'r apwyntiad fel sy'n briodol.
3. Cysylltwch ag Ymgynghorydd Iechyd Meddwl y Brifysgol.
4. A yw'r myfyriwr yn gwybod am y Gwasanaethau Iechyd Meddwl galw-heidio ar-lein a sesiynau cymorth ffôn dyddiol y Gwasanaeth Cwnsela?

**NAC**

## Allwch chi helpu?

Oes gennych chi'r amser a'r sgiliau?

**NA**

### Ymgynghorwch ag un o'r canlynol:

- Cynghorydd Iechyd Meddwl
- Cwnselydd ar Ddyletswydd
- Rheolwr Llinell:

Os yw'r sefyllfa'n gwaethygu a'ch bod yn pryderu am ddiogelwch / lles y myfyriwr, cynghorwch y myfyriwr i ffonio **rhif y GIG 0845 4647.** Os yw'r sefyllfa'n gwaethygu a bod y myfyriwr yn byw mewn neuadd breswyl a'ch bod yn pryderu am eu diogelwch uniongyrchol neu'ch diogelwch eich hun cysylltwch â **Diogelwch ar 2795.**

Os yw'r myfyriwr oddi ar y campws a'ch bod yn pryderu am rywun neu amdanoch eich hun ffoniwch **rif yr heddlu (heb fod yn argyfwng), sef 101, a dweud eich bod yn pryderu am les rhywun.** Byddwch angen enw'r person, eu cyfeiriad hysbys diwethaf a'u rhif ffôn.

Os ydych yn pryderu bod **perygl i fywyd** neu fod trais yn cael ei ddefnyddio neu'n cael ei fygwth **ffoniwch 999** ar bob achlysur.

**GALL**

## Gall cymorth priodol gynnwys:

- Gwrando ar bryderon y myfyriwr.
- Cynghori ar faterion ymarferol.
- Darparu gwybodaeth am opsiynau i'w cefnogi, e.e. Y Gwasanaeth Lles / Caplaniaeth / Undeb y Myfyrwyr / sefydliadau gwirfoddol lleol
- Cadw cofnod clir o'r prif faterion.
- Rhannu eich pryderon pan fo'n briodol

### Nodyn am gyfrinachedd:

**Cyngor cychwynnol** - Gallwch geisio cyngor cychwynnol, heb dorri cyfrinachedd, trwy beidio â datgelu enw'r myfyriwr.

**Gofyn am ganiatâd** - Cyn ymgynghori â rhywun ynglŷn â lles myfyriwr, dylid gofyn am ganiatâd y myfyriwr os yn bosibl.

**Torri Cyfrinachedd** - Os ydych yn credu y dylid torri cyfrinachedd, holwch reolwr llinell yn gyntaf, lle bo'n bosibl.

**Gwrthod Caniatâd** - Os yw'r myfyriwr yn gwrthod caniatâd ond eich bod o'r farn bod eu diogelwch nhw neu ddiogelwch pobl eraill mewn perygl, mae angen i chi rannu'r wybodaeth hon fel 'dyletswydd gofal'.

**Rhannu Gwybodaeth -** Dylid rhannu gwybodaeth, yn ysgrifenedig ac ar lafar, ar sail 'angen gwybod'.